DISGRIFIAD SWYDD A MANYLEB PERSON

Cyfadran:	Ffyniant, Datblygu a Gwasanaethau Rheng Flaen
Uwchadran:	Gwasanaethau Rheng Flaen
Isadran:	Priffyrdd a Thrafnidiaeth
Uned:	Gwasanaethau Traffig
Teitl y Swydd:	Peiriannydd Cynorthwyol - Gwasanaethau Rheoli Materion Datblygu a Mabwysiadu Priffyrdd
Rhif y Swydd ar Vision:	3731
Gradd:	GR10
Yn atebol i:	Uwch Beiriannydd
Swyddi sy'n atebol i'r swydd yma:	Clerc Gwaith GR 9
Carfan:	Gwasanaethau Rheoli Materion Datblygu a Mabwysiadu Priffyrdd
Lefel Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:	Dim
Swyddfa / Canolfan:	Tŷ Sardis, Pontypridd
Dyddiad y Disgrifiad:	Mawrth 2021

AMCANION ALLWEDDOL

Darparu gwasanaethau Rheoli Datblygu y Priffyrdd yn effeithiol, effeithlon, ymatebol ac o'r safon orau.

CYFRIFOLDEBAU PENODOL

Gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gyflawni amcanion a thargedau perfformiad, yn unol â'r hyn sydd wedi'i nodi yn y Cynllun Busnes Rheoli Datblygu.

Darparu'r Awdurdod Cynllunio Lleol gyda sylwadau priffyrdd mewn ymateb i geisiadau ac ymholiadau cyn cynllunio yn unol â deddfwriaeth priffyrdd cyffredinol a chanllawiau technegol, mewn modd amserol i gyflawni targedau cyflawniad ar gyfer ymateb fel y nodir yn y cynllun busnes.

Paratoi tystiolaeth a datganiad ar gyfer apeliadau cynllunio.

Adolygu dylunio a manylion peirianneg a chyflawni amodau cynllunio.

Goruchwylio gwaith seilwaith y priffyrdd a datblygu'r broses o fabwysiadu priffyrdd.

Cyflwyno Rhybudd Cod Taliad Ymlaen Llaw yn unol â Deddf y Priffyrdd 1980.

Cynorthwyo'r Awdurdod Cynllunio Lleol i ddatblygu a chadw'r Cynllun Datblygu Lleol dan arolwg o ran materion Priffyrdd a Thrafnidiaeth.

Sicrhau ymateb i gwynion, ymholiadau a cheisiadau am wasanaeth yn unol â pholisi a chyfarwyddyd y Cyngor.

Bod yn gyfrifol am sicrhau bod deddfwriaeth, rheoliadau a rhwymedigaethau statudol eraill sy'n berthnasol yn cael eu bodloni.

Cynrychioli adran y priffyrdd mewn is-bwyllgorau Rheoli Datblgyiadau.

Ymgysylltu a gweithio'n llwyddiannus gyda sefydliadau mewnol ac allanol wrth gyflwyno cyn-geisiadau, cynllunio ceisiadau, gweithredu gwaith y priffyrdd a mabwysiadu priffyrdd newydd wedi hynny.

Gweithredu cyfrifoldebau iechyd a diogelwch yn unol â dogfen ‘Cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch yr Uwchadran’.

Cyflawni unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau rhesymol eraill sy'n gymesur â'r swydd ar gais y Cyfarwyddwr Gwasanaeth neu yng ngoleuni cyfle cytûn i ddatblygu'n broffesiynol.

BYDD CYNNWYS Y DDOGFEN YMA YN CAEL EI ADOLYGU O BRYD I'W GILYDD GAN YMGYNGHORI Â DEILIAD Y SWYDD. MAE'N BOSIBL BYDD Y DISGRIFIAD SWYDD YN NEWID YN SGIL HYNNY.

Mae diogelu plant ac oedolion agored i niwed yn gyfrifoldeb craidd pob un o'n gweithwyr. Dylech chi roi gwybod i Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf am unrhyw bryderon sydd gyda chi o ran diogelu.

MANYLEB PERSON

Mae'r fanyleb yma'n nodi gwybodaeth a/neu gymwysterau, profiad a chymwyseddau personol a fyddai'n ddelfrydol ar gyfer y swydd benodol yma.

Mae'r adrannau **Gwybodaeth/Cymwysterau a Phrofiad** yn disgrifio'r gallu technegol sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud y swydd yma yn llwyddiannus.

Mae'r adran **Cymwyseddau** yn disgrifio'r mathau o sgiliau (heb fod yn dechnegol), y galluoedd, a'r nodweddion personol, a fyddai gyda'r person sy'n ddelfrydol ar gyfer y swydd benodol yma. Mae'r cymwyseddau yn disgrifio sut byddai'r person hwnnw, yn ddelfrydol, yn gweithio gyda phobl eraill a sut y byddai'n ymgymryd â'i gyfrifoldebau.

Mae'r adran **Amodau Arbennig a Gofynion Proffesiynol** yn disgrifio unrhyw briodoleddau eraill sy'n briodol i'r amgylchiadau penodol a fo'n ymwneud â'r swydd yma.

PRIODOLEDD	HANFODOL	DYMUNOL
GWYBODAETH / ADDYSG	Sgiliau Cymraeg Lefel 1 – Bydd raid i bob gweithiwr gymryd rhan mewn sesiwn cyflwyniad i'r Gymraeg i gyrraedd y lefel yma. Edrychwch ar y Canllaw Sgiliau Iaith Gymraeg ar-lein: http://www.rctcbc.gov.uk/SgiliauCymraeg Gwybodaeth dda am reoli datblygiadau'r priffyrdd. Gwybodaeth dda am briffyrdd a'r gweithdrefnau cynllunio. Cyflawni cymhwyster cydnabyddedig mewn disgyblaeth Peirianneg Sifil e.e. Tystygrif Genedlaethol Uwch neu gymhwyster cyfwerth o fewn cyfnod o dair blynedd.	Sgiliau Cymraeg Lefel 2 i Lefel 5. I gael gwybodaeth am y lefelau, mynnwch olwg ar ein canllawiau Lefelau Sgiliau Cymraeg, sydd i'w gweld yn adran y Gwasanaethau Cymraeg ar wefan Cyngor RhCT. Gwybodaeth dda am gyfreithiau cynllunio a phriffyrdd. Tystygrif Genedlaethol Uwch / Diploma Cenedlaethol Uwch / Gradd mewn Peirianneg Sifil neu gymwysterau neu brofiad cyfatebol a phroffesiynol mewn peirianneg y priffyrdd. Tystiolaeth o hyfforddiant diweddar a/neu ddatblygiad proffesiynol parhaus.
PROFIAD	Profiad o weithio ym maes Rheoli Datblygiadau'r Priffyrdd. Dylunio a manylu ar ffyrdd Ystadau a systemau draenio.	Cynllunio gwasanaeth a busnes. Sgiliau trafod da.
CYMWYSEDDAU	**Fframwaith Cymhwysedd Goruchwylwyr**	
Arwain ac Ysgogi	Arfer ymagwedd ysbrydoledig a chadarnhaol tuag at waith. Gwerthfawrogi medrau a chyfraniadau aelodau eraill o'r garfan yn agored.	
Gweithio fel Aelod o'r Garfan	Meithrin perthnasau parhaol, cadarnhaol ac adeiladol sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth. **Hyrwyddo ysbryd cryf o rannu cyfrifoldeb a chydweithio yn y garfan.**	

Cyfathrebu Yn Effeithiol	**Cyfathrebu'n glir ac yn gryno.** Cadw llif o wybodaeth i redeg er mwyn datrys problemau neu ddelio ag ymholiadau'n gyflym.
Cynnwys Newid	Deall yr angen am newid ac yn ymateb mewn ffordd gadarnhaol i welliannau. Hyrwyddo agwedd agored a chadarnhaol tuag at newid a hyblygrwydd.
Rheoli Amser	**Arfer dull gweithio rhesymegol a threfnus wrth gynllunio.** Gweithio gyda phobl eraill i gynllunio'r ffordd orau ymlaen.
Bod yn Atebol	**Defnyddio gwaith ymgynghori yn sail i benderfyniadau pwysig.** Gwneud penderfyniadau cytbwys, a meddwl ymlaen llaw.
Sicrhau Canlyniadau	**Gallu gweithio'n effeithiol o dan bwysau.** Sicrhau deilliannau o safon uchel yn gyson
Canolbwyntio ar Ddefnyddwyr Gwasanaeth	Gofalu bod anghenion y cwsmer yn cael eu diwallu drwy ymateb iddyn nhw'n effeithlon ac yn effeithiol. Darparu a hyrwyddo gofal o'r safon uchaf ar gyfer cwsmeriaid.
AMODAU ARBENNIG A GOFYNION PROFFESIYNOL	Y modd i deithio ledled y Fwrdeistref Sirol i ymateb i ofynion y gwasanaeth - bydd cerbydau gwaith i'w rhannu'n cael eu darparu.